# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **8 Mai 2019**. Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid oes iddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Alyson Pugh | **Ward Etholiadol:** | Llansamlet |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliom dair cymhorthfa'r mis yn ein tro.
Cefnogais Glwb Ieuenctid Stadwen gyda gweithgareddau a theithiau ar gyfer y bobl ifanc a defnyddiais fy Nghyllideb Cynghorydd Cymunedol i dalu am ailbaentio'r neuadd.
Cafodd nifer o ddigwyddiadau ar gyfer teuluoedd eu hariannu a'u cynnal gennym.
Taith i Fferm Folly i deuluoedd â phlant ifanc.
Digwyddiadau ddwywaith y mis ar gyfer pobl hŷn gyda bwyd, artist a bingo.
Es i i gyfarfodydd PACT.
Cefnogais gyfarfodydd preswylwyr am stadau a datblygwyr tai.
Cefnogais breswylwyr mewn cyfarfod ynglŷn â goryrru yn Y Trallwn a Gellifedw.
Rwyf wedi ariannu llinellau melyn a chyfyngiadau parcio yng Ngellifedw.
Rwyf wedi gweithio gyda Thai Coastal i gefnogi preswylwyr.
Rwyf wedi gweithio'n agos gyda swyddogion tai ar faterion megis anghydfod rhwng cymdogion a chyflwr tai.
Rwyf wedi llunio nifer o adroddiadau am broblemau gyda biniau gwastraff, biniau baw cŵn a thipio'n anghyfreithlon.
Rwyf wedi mynd i'r afael â phroblemau ynghylch goleuadau traffig.
Rwyf wedi mynd i'r afael â phroblemau'r tanciau ar y brif ffordd.
Rwyf wedi darparu llythyrau o gefnogaeth i breswylwyr.
Rwyf wedi ymdrin ag anghydfodau am ddefnydd tir.
Es i i fforymau "Byw'n Dda, Heneiddio'n Dda".
Rwyf wedi gweithio gyda Safonau Masnach ar gwynion.
Rwyf wedi darparu cefnogaeth banc bwyd i breswylwyr lle bo angen.
Rwyf wedi plannu blodau gwyllt a gosod basgedi crog, etc.
Rwyf wedi cefnogi nifer o breswylwyr â phryderon unigol a'u cefnogi drwy'r holl broses.
Rwyf wedi gweithio gyda'r tîm NEET (heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) yng nghoedwig Parc yr Helyg.
Cefnogais agoriad yr ysgol Gymraeg newydd yn Lôn Las.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr is-adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb cynghorwyr yma

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2018-2019

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld cyfrifoldebau'r cynghorwyr yma
Gallwch weld apwyntiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma

Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi, sy'n cynnwys polisïau mewnol am dlodi bwyd, benthyca llog uchel a Thai'n Gyntaf.
Gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o gyrff allanol, e.e. Carchar Abertawe, yr heddlu, Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel, Comisiwn Gwirionedd Tlodi, Fforwm Tlodi, cyfarfodydd gyda'r trydydd sector, Grŵp Llywio VAWDASV (Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol).
Wedi mynd i nifer o gyfarfodydd gwleidyddol.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Wedi cynorthwyo â'r canlynol:
Ymladd yn erbyn y llosgydd.
Ymgyrch Costa Coffee - datblygiad ar gyffordd brysur ar yr M4.
Materion diogelwch difrifol oherwydd parcio ym Mhentref Tregof o ganlyniad i gyflogwyr mawr gerllaw.
Problemau draenio difrifol ar gae clwb pêl-droed Talycopa a goblygiadau ariannol defnyddio cae arall.
Ymgyrch tlodi'r misglwyf gyda STOPP a darparwyd deunyddiau misglwyf gennym ar gyfer yr ysgolion a'r clwb ieuenctid.
Cynlluniau newyn gwyliau yn ystod pob gwyliau ysgol i roi bwyd i'r teuluoedd y mae angen cefnogaeth ychwanegol arnynt, gan gynnwys basgedi bwyd ar gyfer y Nadolig.
Cefnogi ceisiadau am arian grant ar gyfer gwarchodfa natur, Parc Briallu a llwybrau beicio.
Sicrhau bod Parc Bryn Heulog yn cael ei fabwysiadu.
Wedi darparu prydau twym trwy gydol mis Awst ar gyfer teuluoedd y mae angen cefnogaeth arnynt.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Aelod o'r canlynol:-
Pwyllgor y Warchodfa Natur
Cyfeillion Parc yr Helyg
Cyfeillion Parc Heol Las
Canolfan Gymunedol Gellifedw
Banc Bwyd Eastside
Llywodraethwr yn ysgolion cynradd Glais a Thalycopa
Clwb Pêl-droed Talycopa
Cyfarfodydd misol gyda'r Cydlynydd Ardal Leol i gefnogi preswylwyr diamddiffyn

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**
Cyflog Uwch (Cadeirydd Pwyllgor): £22,300

Gallwch weld ffurflenni hawlio costau teithio a threuliau cynghorwyr yma.
Gallwch weld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 03/02/2020 |